



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

## **Adroddiad ar**

**Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf  
Heol Y Bont  
Gogledd Llandaf  
Caerdydd  
CF14 2JL**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor  
Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:  
[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

## Cyd-destun

Ysgol gyfun ddynodedig Gymraeg ar gyfer disgyblion 11-18 oed yw Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf a gynhelir gan awdurdod lleol Caerdydd. Mae nifer y disgyblion wedi codi'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf, gyda 1,302 o ddisgyblion yn cynnwys 253 yn y chweched dosbarth yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Lleolir yr ysgol ger Afon Taf yn Llandaf a daw'r disgyblion o ardal ddwyreiniol Caerdydd. Eleni mae 11% o'r disgyblion wedi'u cofrestru i fod â hawl i brydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.1%. Mae 19% o'r disgyblion yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu llawn. Nid oes unrhyw ddisgybl yn derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae 1% o ddisgyblion yn dod o gefndir lleiafrifoedd ethnig. Mae 1.3% o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn ogystal, mae 43 o ddisgyblion (3%) ar gamau 'gweithredu ysgol a mwy'. Daw 23% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Mae'r awdurdod lleol yn gofalu am un disgybl sydd ar gofrestr yr ysgol.

Dechreuodd y pennaeth presennol ar ei swydd ym mis Medi 2010. Roedd gweddill aelodau'r uwch dîm arwain yn eu swyddi yn ystod yr arolygiad diwethaf.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf yw £4,224, sy'n cymharu gydag uchafswm o £4,823 ac isafswm o £3,807 ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghaerdydd. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 11eg uchaf o'r 20 ysgol uwchradd yng Nghaerdydd.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol ac yn dangos agwedd bositif tuag at eu dysgu;
- mae bron pob disgybl yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- caiff iechyd a lles y disgyblion eu hyrwyddo'n dda iawn; ac
- mae amrediad eang o weithgareddau ar gael yn yr ysgol a chyfranogiad uchel gan y disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae gan y pennaeth a'r uwch dîm arwain dealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu;
- nawr mae ffocws cryfach ar lefel adrannol ac ysgol gyfan ar ddadansoddi data a chymharu perfformiad yr ysgol gydag ysgolion tebyg; ac
- mae'r ysgol wedi cymryd camau buddiol i sicrhau gwell effeithiolrwydd yng nghyllideb yr ysgol a nawr mae sefyllfa staffio'r ysgol yn fwy cynaliadwy.

## Argymhellion

I sicrhau gwelliant, dylai staff a llywodraethwyr Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf:

- A1 parhau i godi safonau yng nghyfnod allweddol 3 ac yng nghyfnod allweddol 4;
- A2 cryfhau ansawdd adborth athrawon ar sut i wella a sicrhau cysondeb yn y defnydd o strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol;
- A3 cryfhau ymhellach rôl rheolwyr cyswllt i sicrhau cysondeb mewn safonau ac ansawdd;
- A4 cryfhau llais y disgybl trwy'r cyngor ysgol a chynghorau blwyddyn; a
- A5 sicrhau bod yr ysgol yn cyd-fynd â'r gofynion statudol o gyd-addoli a chyfethol disgybl lywodraethwyr.

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 ar gyfer pob un o'r prif ddangosyddion mae perfformiad yr ysgol uwchlaw ffigyrau cyfartalog Cymru ac yn uwch na chyfartaleddau'r teulu. Dros y tair blynedd diwethaf, ar gyfer y rhan fwyaf o'r dangosyddion yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yr ysgol wedi bod yn gyson dda.

Yn 2009 a 2010 yng nghyfnod allweddol 3, roedd perfformiad mewn mathemateg, gwyddoniaeth a'r dangosydd pynciau craidd (y perfformiad disgwylidig yn y Gymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol) yn uwch na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru, ond ymhlith y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg yn genedlaethol o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 3 wedi aros yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu ac yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim. Yn 2010 roedd perfformiad mewn Saesneg wedi disgyn ychydig ac ymhlith y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg ond yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a chyfartaledd y teulu. Yn 2010 roedd perfformiad ar lefel 6 neu'n uwch yn well na chyfartaledd y teulu yn y Gymraeg, gwyddoniaeth a mathemateg ac yn agos at gyfartaledd y teulu yn Saesneg.

Yng nghyfnod allweddol 4, ers 2008, mae canlyniadau'r trothwy lefel 2, (yr hyn sy'n cyfateb i ennill pump neu fwy o raddau A\*-C TGAU) a'r trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg, wedi bod yn uwch na ffigyrau cyfartalog Cymru a chyfartaledd y teulu. Ar gyfer y ddau dangosydd, mae'r ysgol wedi bod ymhlith y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn ystod yr un cyfnod, mae canlyniadau'r dangosydd pynciau craidd a'r trothwy lefel 1 (yr hyn sy'n cyfateb i ennill pump neu fwy o raddau D-G TGAU) wedi bod sylweddol yn uwch na ffigyrau cyfartalog Cymru a chyfartaledd y teulu. Mae canlyniadau 2010 yn gosod yr ysgol yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg yn y dangosydd pynciau craidd ac, am y tro cyntaf, ymhlith y 25% uchaf am y trothwy lefel 1. Mae'r sgôr bwyntiau cyfartalog (sy'n cwmpasu holl gymwysterau a gymeradwywyd yn allanol yn 16) wedi cynyddu'n raddol dros y tair blynedd diwethaf ac wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu a ffigyrau cyfartalog Cymru.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn gyffredinol ar sail eu cyflawniadau blaenorol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y trothwy lefel 2 yn uwch na chyfartaledd y teulu a ffigyrau cyfartalog Chymru. Mae grwpiau eraill o ddisgyblion, yn cynnwys disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd priodol.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, does dim un disgybl wedi gadael yr ysgol heb o leiaf un cymhwyster cydnabyddedig ac mae'r rhan fwyaf yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae hyn yn well na'r cyfartaledd lleol a chenedlaethol.

Yn y chweched dosbarth mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 3 (sydd yn gyfwerth â dwy Safon Uwch ar raddau A\*-E) a'r sgôr bwyntiau cyfartalog ehangach (sy'n cwmpasu holl gymwysterau a gymeradwywyd yn allanol yn 18) yn uwch na ffigyrau cyfartalog Cymru a chyfartaledd yr awdurdod lleol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi. Maent yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd ganddynt mewn gwersi blaenorol, ac yn datblygu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth newydd yn effeithiol. Mae'r disgyblion yn dangos cymhelliant ac yn ymateb yn frwdfrydig i dasgau priodol. Mewn ychydig iawn o wersi lle nad oes yna ddigon o her, mae cynnydd y disgyblion yn annigonol.

Mewn llawer o'r gwersi mae disgyblion yn cydweithio'n fedrus mewn grwpiau bach neu barau ac yn gwneud defnydd effeithiol o'u hamser. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwrando'n ofalus a llawer yn barod i gyfrannu ar lafar, ond lleiafrif o ddisgyblion sy'n cynnig atebion estynedig ar lafar. Mae llawer yn darllen yn hyderus yn y Gymraeg a Saesneg ac mae disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol trwy'r cynllun darllen Cymraeg yn gwneud cynnydd da iawn. Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o eirfa bynciol ac yn ysgrifennu'n gywir i ystod o wahanol bwrpasau. Fodd bynnag, mae camgymeriadau sillafu a gramadeg yng ngwaith ysgrifenedig ychydig o ddisgyblion.

Eleni mae tua hanner o'r disgyblion ym Mlwyddyn 9 wedi ennill achrediad cyfathrebu ar lefel 2.

### **Lles: Da**

Mae disgyblion yn deall pwysigrwydd gweithgareddau corfforol a bwyta'n iach, a'r berthynas rhwng rhain a byw yn iach. Mae'r rhan fwyaf yn cymryd rhan mewn gweithgareddau tu allan i'r ystafell ddosbarth sydd wedi eu trefnu naill ai gan staff yr ysgol neu fel rhan o'r ddarpariaeth 5x60. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a llawer yn hyderus bod yr ysgol, drwy'r cynllun 'Seren', yn delio'n briodol â'r nifer fach o achosion o fwlio sydd yn codi.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn dda iawn, ac maent wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2010 gosodir yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Mae cyfraddau gwaharddiad dros dro a gwaharddiadau parhaol yn is na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Mae ymddygiad rhan fwyaf o'r disgyblion mewn gwersi a thu allan i'r ystafell ddosbarth yn dda iawn. Mae bron pob un yn cyrraedd gwersi'n brydlon ac yn setlo'n gyflym i weithio. Dangosant barch a chwarteisi tuag at eu cyd-ddisgyblion ac oedolion. Maent yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi, gyda llawer yn dangos brwdfrydedd amlwg yn eu gwaith.

Mae penderfyniadau gan gyngor yr ysgol wedi cael effaith bositif ar rai agweddau ar drefniadaeth yr ysgol, ac mae rôl ac effeithiolrwydd y cyngor yn datblygu. Mae

aelodau sydd yn y chweched dosbarth wedi mynychu un cyfarfod o'r corff llywodraethol yn ddiweddar. Fodd bynnag, nid yw pob pwyllgor blwyddyn yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae lleiafrif o ddisgyblion yn teimlo nad yw'r ysgol pob amser yn gwrando a gweithredu ar eu sylwadau.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn meddu ar y medrau i'w paratoi ar gyfer bywyd tu hwnt i'r ysgol neu'r cam nesaf o'u dysgu.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm priodol sy'n diwallu anghenion rhan fwyaf o'r disgyblion. Mae'r cwricwlwm yn bodloni gofynion statudol ac mae'r cydweithio effeithiol gyda darparwyr lleol yn ymestyn yr opsiynau galwedigaethol sydd ar gael ac yn dangos datblygiad priodol o Lwybrau Dysgu 14-19. Nodwedd ardderchog yw ehangder ac amllder y gweithgareddau allgyrsiol, elusennol a chymunedol, a chyfranogiad uchel y disgyblion ynddynt. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg gysylltiedig â gwaith yn cael lle blaenllaw o fewn y cwricwlwm.

Mae'r strategaeth bontio gynhwysfawr a chydweithio effeithiol rhwng yr ysgol a'i hysgolion cynradd partner yn sicrhau fod cwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n briodol ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau blaenorol.

Yng nghyfnod allweddol 3, ceir darpariaeth gydlynus a chynhwysfawr iawn ar gyfer medrau cyfathrebu yn y Gymraeg, a strategaeth gefnogi fuddiol ar gyfer disgyblion sydd ddim yn cyrraedd y lefelau darllen disgwylidig. Mae cyfraniadau adrannau eraill i asesu llafaredd yn gryfder penodol. Mae'r gwaith o hyrwyddo medrau rhifedd yn datblygu'n foddhaol gyda chyfleoedd cydlynus wedi'u cynllunio yn y mwyafrif o adrannau. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'r ystod lawn o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn llai datblygedig.

Ceir darpariaeth greadigol iawn gan adrannau o gyfleoedd i hybu'r iaith Gymraeg ac ymwybyddiaeth o'r dimensiwn Cymreig. Mae dealltwriaeth disgyblion o hanes, treftadaeth a diwylliant Cymru yn cael ei hybu'n ardderchog drwy gyfrwng gwasanaethau, arddangosfeydd, y rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau allgyrsiol a digwyddiadau ysgol gyfan. Prif gyfrwng addysgu'r ysgol yw'r Gymraeg. Mae'r cynlluniau sydd ar waith i hybu defnydd disgyblion o'r Gymraeg yn gymdeithasol o gwmpas y safle, megis 'Radio Taf', yn cael effaith gadarnhaol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o gyfleoedd ar gyfer hybu dinasyddiaeth fyd-eang ac mae'r gwaith o hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yn cynyddu'n raddol.

### **Addysgu: Da**

Mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda iawn. Mae'r rhan fwyaf yn cynllunio eu gwersi'n drwyadl ac yn gosod amcanion clir sy'n cael eu rhannu gyda'r disgyblion. Maent yn paratoi gweithgareddau sydd yn llwyddo i ennyn diddordeb y disgyblion a hybu safonau da. Ym mron pob gwers mae'r berthynas rhwng athrawon a disgyblion yn dda iawn ac mae athrawon yn sicrhau safonau uchel o ymddygiad. Mae'r rhan



fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod briodol o ddulliau addysgu ac yn gwneud defnydd da o adnoddau, gyda lleiafrif yn defnyddio adnoddau technoleg gwybodaeth yn effeithiol.

Mae llawer o wersi'n llwyddo i fodloni anghenion pob disgybl. Ar brydiau, fodd bynnag, nid yw'r gwaith yn darparu digon o her ar gyfer rhai aelodau o'r dosbarth, er enghraifft y disgyblion mwyaf galluog. Mae'r mwyafrif o athrawon yn cwestiynu'n fedrus i wirio dealltwriaeth disgyblion ac i hwyluso datblygiad eu medrau cyfathrebu. Ar ddiwedd lleiafrif o wersi darperir cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at adolygiad o'r dysgu, ond nid yw hon eto'n arfer gyson ar draws yr ysgol. Mae lleiafrif o adrannau'n ennyn datblygiad medrau meddwl disgyblion yn effeithiol.

Mae athrawon yn asesu cyrhaeddiad disgyblion yn rheolaidd ac mae disgyblion weithiau'n asesu gwaith eu hunain neu waith eu cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth llafar priodol i'r disgyblion yn ystod gwersi ac yn marcio gwaith ysgrifenedig yn rheolaidd. Mae adborth ysgrifenedig llawer o athrawon yn adeiladol, ond mae sylwadau lleiafrif o athrawon yn rhy gyffredinol i gynorthwyo disgyblion i wella safon eu gwaith.

Mae pob athro'n cofnodi canlyniadau asesiadau safonol yn briodol gan ddefnyddio system electronig yr ysgol. Mae'r ysgol yn tracio cynnydd disgyblion yn effeithiol ac yn gwneud trefniadau addas i fynd i'r afael ag unrhyw danberfformiad. Unwaith bob tymor mae disgyblion yn trafod eu cynnydd gyda mentor personol ac yn cytuno ar dargedau ar gyfer gwelliant. Mae hyn yn nodwedd dda. Mae'r trefniadau ar gyfer adrodd nôl i rieni'n cyd-ymffurfio â gofynion statudol. Mae'r rhan fwyaf o adroddiadau'n cynnwys sylwadau manwl a thargedau priodol ond mewn ychydig o enghreifftiau mae'r targedau'n rhy gyffredinol i roi arweiniad pendant i ddisgyblion.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles ei disgyblion yn llwyddiannus iawn. Cydlynir yr agweddau hyn gan strategaeth addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr sydd yn datblygu hunan ymwybyddiaeth a hunan barch yn effeithiol. Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion drafod materion cyfoes sydd yn berthnasol i'w bywydau, ac maent yn gwneud hyn gydag aeddfedrwydd a dealltwriaeth. Mae'r ysgol yn meithrin gwerthoedd moesol cadarnhaol fel gonestrwydd, tegwch a pharch at eraill. Er bod darpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol yn briodol trwy wersi addysg grefyddol, mae'r trefniadau statudol ar gyfer cyd-addoli dyddiol yn annigonol ar rai adegau.

Mae cysylltiadau buddiol gyda'r ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym ym Mlwyddyn 7. Mae llawer o'r disgyblion ym Mlwyddyn 9 a Blwyddyn 11 yn derbyn cymorth diduedd ac effeithiol ac mae ansawdd y cyfarwyddyd ar gyfer dewisiadau disgyblion yn briodol. Mae'r ysgol yn darparu cymorth unigol ar faterion addysgol a materion eraill yn effeithiol gan ddefnyddio asiantaethau arbenigol fel y gwasanaeth seicolegol pan fo'n addas.

Caiff disgyblion anghenion dysgu ychwanegol ofal priodol. Mae'r ysgol yn eu galluogi i fanteisio ar gwricwlwm cytbwys sydd hefyd yn ymateb i'w gofynion personol. Cynhelir adolygiadau blynyddol yn unol â'r gofynion statudol, a darperir

cynlluniau addysg unigol dilys sydd wedi eu hymgorffori o fewn ffurflen proffil disgybl yr adran cynnal dysgu. Er hyn, nid yw rhan rhieni, fel rhanddeiliaid pwysig, yn ddigon amlwg wrth ddatblygu a gwerthuso cynnydd disgyblion o fewn y cynlluniau hyn.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisiau addas ar gyfer diogelu plant.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos teuluol yr ysgol yn parchu hawliau pob unigolyn. Sicrha'r ysgol fod yr holl ddisgyblion yn cael y cyfle i ddatblygu eu medrau academaidd a chymdeithasol yn llawn.

Er bod yr ysgol yn llawn mae'r adeiladau a'r ystafelloedd ar y cyfan yn ddigonol ar gyfer cyflwyno holl agweddau'r cwricwlwm. Maent wedi gwella'n arwyddocaol yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyda chanolfan addysg gorfforol aml bwrpas a bloc gwyddoniaeth newydd. Bydd yr estyniad newydd ar gyfer mis Medi yn cynnwys cyfleusterau gwell i'r chweched dosbarth sydd ar hyn o bryd yn annigonol ar gyfer nifer y disgyblion.

Mewn mannau mae arddangosfeydd symbylus a da o waith disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at yr amgylchedd ysgogol a chadarnhaol ar gyfer dysgu. Caiff adeiladau a thir yr ysgol eu cynnal a'u cadw'n daclus. Mae toiledau'r bechgyn a'r cyfleusterau ar gyfer newid yn dda ond mae toiledau'r merched mewn cyflwr anaddas.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth yr uwch dîm arwain, wedi gosod cyfeiriad strategaethol clir ar gyfer datblygiad yr ysgol. Mae hyn wedi ei seilio ar ddadansoddiad manwl ar berfformiad i herio tangyflawniad a nodi blaenoriaethau. Rhannwyd y canfyddiadau â llywodraethwyr, staff ac arweinwyr canol ac mae dealltwriaeth gytûn o'r prif flaenoriaethau gwelliant. Wrth wraidd y bwriadau, mae agweddau pwysig cynhwysiant a chodi safonau, ynghyd â datblygu rôl rheolwyr canol, yn enwedig yn eu defnydd o ddata. Mae tystiolaeth glir o effaith gychwynnol ar ansawdd systemau ac yn y gostyngiad sylweddol yn niferoedd gwaharddiadau dros dro eleni. Er enghraifft, mae rheolwyr canol wedi dechrau gwneud defnydd priodol o'r setiau data craidd i gymharu perfformiad ag ysgolion tebyg a nodi meysydd i'w gwella.

Mae gan uwch reolwyr ddealltwriaeth glir o'u rôl a'u cyfrifoldebau o ran amcanion strategaethol yr ysgol. Mae cyfrifoldebau rheolwyr cyswllt ag adrannau pwnc wedi eu diffinio'n glir. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiaeth o ran amllder y cyfarfodydd cyswllt ac o ran cytuno ar flaenoriaethau a chymau dilynol ar gyfer adolygu cynnydd.

Mae'r wyth gweithgor traws-ysgol newydd eleni yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at ddatblygu arweinyddiaeth ar lefel rheolwyr canol ac aelodau eraill o staff. Pennwyd y meysydd ar gyfer y gweithgorau mewn ymgynghoriad â staff ac mae hyn wedi esgor ar ymdeimlad cryf o berchnogaeth. Mae disgwyliadau clir bod y gweithgorau i gwblhau eu gwaith o fewn cyfnod penodol.

Mae trefniadau priodol yn eu lle i reoli perfformiad staff ac adnabod anghenion hyfforddiant.

Mae'r cyflwyniadau gan y pennaeth, ynghyd ag aelodau eraill o staff ar faterion fel y cwricwlwm 14 - 19 a rhifedd, yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth y corff llywodraethol o flaenoriaethau'r ysgol. Mae dealltwriaeth y llywodraethwyr o berfformiad yr ysgol wrth gymharu ag ysgolion tebyg wedi cryfhau'n ddiweddar. Mae trefniadau buddiol wedi eu cyflwyno i ddatblygu rôl strategaethol a monitro'r llywodraethwyr o ran cyswllt penodol ag aelodau'r uwch dîm arwain. Yn groes i ofynion statudol, nid yw'r corff llywodraethol yn cynnwys disgyblion wedi eu cyfethol gan y cyngor ysgol.

Mae blaenoriaethau lleol a chenedlaethol wedi eu hymgorffori ym mwriadau cynllun datblygu'r ysgol. Mae'r cysylltiadau ag ysgolion cynradd drwy'r cynllun pontio a'r cydweithio â darparwyr eraill i ehangu'r opsiynau i ddysgwyr 14 - 19 yn agweddau cryf ar y ddarpariaeth.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ysgol yn datblygu strwythur hunanarfarnu effeithiol sydd wedi cael ei gynllunio ar lefel ysgol gyfan ac adrannol. Mae cysylltiad amlwg a phriodol rhwng gweithdrefnau hunanarfarnu ysgol-gyfan a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae ffocws amlwg a manwl ar ddadansoddi cyflawniad er mwyn gwella safonau a darpariaeth. Ar y cyfan mae'r adroddiad hunanarfarnu yn gynhwysfawr a meddylgar. Fodd bynnag, mae ychydig o'r arfarniadau yn rhy hael.

Mae'r broses o hunanarfarnu adrannol yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys tystiolaeth o waith monitro llyfrau a gwersi, ond mewn lleiafrif o adrannau nid yw'r broses yn ddigon trylwyr. Mae adrannau wedi dechrau defnyddio ystod fwy eang o ddata allanol a mewnol. O ganlyniad, mae darlun mwy clir gan arweinyddwyr o'r safonau cenedlaethol a gwybodaeth feincnodol sydd yn eu cynorthwyo i weld cyflawniad disgyblion mewn cyd-destun mwy ystyrion. Er hynny, mae'r ysgol yn cydnabod bod angen sicrhau gwell cysondeb yn y ffordd mae pob adran yn gosod targedau sydd yn seiliedig ar ddadansoddiad manwl a thrwyadl o ddata. Mae staff a llywodraethwyr yn darparu mewnbyn addas i'r adroddiad hunanarfarnu ond mae llais disgyblion a rhieni neu ofalwyr heb ddatblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn adnabod anghenion datblygiad proffesiynol y staff i gyd trwy'r gweithdrefnau rheoli perfformiad cynhwysfawr. Mae staff yr ysgol yn aelodau o weithgorau allanol ac yn ymweld ag ysgolion eraill er mwyn rhannu arfer dda. Yn ddiweddar, cyflwynodd yr ysgol lefel newydd o weithgorau proffesiynol trwy sefydlu wyth grŵp mewnol sy'n ffocysu ar agweddau o les, y cwricwlwm a dysgu ac addysgu. Mae dangosyddion cynnar yn awgrymu eu bod yn datblygu'n addawol fel grwpiau effeithiol i rannu arfer dda. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld effaith y gwaith yma ar safonau.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Ceir partneriaeth gref rhwng Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf a'r ysgolion lleol sy'n ei bwydo. Mae cymedroli buddiol bellach ar waith gyda phortffolio o waith disgyblion ym mhob un o'r pynciau craidd. Mae'r ysgol hefyd wedi cydweithio'n agos â'r

ysgolion cynradd i lunio portffolio yn enghreifftio gwaith yn y medrau sy'n perthnasu â'r Fframwaith Sgiliau. Bu rhaglen helaeth o ymweliadau gan athrawon yr ysgol â'r ysgolion cynradd i gynnal sesiynau dysgu yn y pynciau craidd ac i drafod â'r cydlynwyr pynciol cynradd. Mae hyn yn gyfraniad arwyddocaol at sicrhau dilyniant a pharhad cwricwlaidd rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3.

Mae gan yr ysgol ymrwymiad cryf i ddatblygu cysylltiadau ag ysgolion uwchradd eraill fel cymunedau dysgu. Mae partneriaeth effeithiol wedi datblygu ag ysgol a cholegau lleol i ehangu'r opsiynau galwedigaethol i ddysgwyr 14-19 oed. Mae nifer cynyddol o ddisgyblion yn manteisio ar y cyrsiau hyn ac yn cwblhau eu hasesiadau terfynol drwy gyfrwng y Gymraeg ar bob un o'r cyrsiau.

Mae trefniadau sicrhau ansawdd y cyrsiau cydweithredol yn datblygu'n dda. Maent yn cynnwys cyfnewid gwybodaeth am agweddau ar gynnydd a phresenoldeb disgyblion unigol. Mae cydlynnydd 14-19 yr ysgol yn ymweld â gwersi yn y colegau i fonitro ansawdd y ddarpariaeth. Nid oes trefniant o'r fath rhwng yr ysgolion.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhieni yn nodi bod yr ysgol yn barod i wrando ac yn dangos parodrwydd i ymateb i unrhyw geisiadau ganddynt. Er hynny, mewn ychydig o achosion, nid yw rhieni'n derbyn digon o wybodaeth am faterion yn ymwneud â'u plant ac am drefniadau a gweithgareddau'r ysgol.

#### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae staff ategol yn rhan effeithiol o'r tîm ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at waith yr ysgol.

Ceir rheolaeth gadarn o'r gyllideb gan y pennaeth, y pwyllgor cyllid a'r bwrsar, a rhoddir ystyriaeth ofalus i gost-effeithiolrwydd pob agwedd ar ddarpariaeth yr ysgol. Mae newidiadau diweddar wedi arwain at gostau staffio sy'n fwy cynaliadwy er mwyn sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer diwallu blaenoriaethau ysgol ac adrannol. Nawr mae perthynas agos iawn rhwng y defnydd o adnoddau a meysydd dynodedig yr ysgol ar gyfer datblygiad.

Mae safonau ac ansawdd yr addysgu yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

#### Ymatebion i'r holiaduron i ddysgwyr

Ymatebodd 331 o ddisgyblion, wedi eu dewis ar hap ar draws yr ysgol, i'r holiadur. Mae'r sampl yma'n cynrychioli chwarter o holl ddisgyblion yr ysgol.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae llawer yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio a'r rhan fwyaf yn teimlo bod ganddynt rywun i siarad gydag os ydynt yn poeni. Teimla'r mwyafrif o ddisgyblion bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach ac mae llawer o'r disgyblion yn nodi bod digon o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn teimlo bod digon o offer yn yr ysgol ond mae lleiafrif o ddisgyblion yn y chweched dosbarth yn anghytuno.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda a bod yr athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae lleiafrif yn teimlo nad yw'r gwaith cartref sy'n cael ei osod yn adeiladu'n dda ar yr hyn maent yn dysgu. Yn gyffredinol mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod eraill yn ymddwyn yn dda, ond yng nghyfnod allweddol 3 dim ond y mwyafrif o ddisgyblion sy'n teimlo bod eraill yn ymddwyn yn dda. Mae llawer yn teimlo bod athrawon yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith ysgol a bod staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. Fodd bynnag tua hanner o'r disgyblion sy'n teimlo bod yr ysgol yn gwrando ar eu barn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn nodi bod yr ysgol yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb. Mae llawer yn teimlo bod yr ysgol yn eu helpu i fod yn barod ar gyfer yr ysgol nesaf, coleg neu fywyd gwaith. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn teimlo'i bod wedi derbyn cyngor da wrth ddewis cyrsiau.

#### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniodd Estyn 287 o holiaduron gan y rhieni ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol.

Dywed rhieni fod eu plant yn hoffi'r ysgol, yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel ynddi. Mae llawer yn credu bod ymddygiad y disgyblion yn dda, bod y disgyblion yn cael eu parchu a'u trin yn deg, a'u bod yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Mae'r rhan fwyaf hefyd yn teimlo bod yr addysgu'n dda a bod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Mae llawer o'r rhieni yn teimlo eu bod yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn a bod yr ysgol yn eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. Mae ychydig o'r rhieni yn teimlo nad yw'r gwaith cartref sy'n cael ei osod yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae'r disgyblion yn ei ddysgu yn yr ysgol. Y mae ychydig o rieni hefyd yn datgan nad oes yna amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. Mae llawer o'r rhieni o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

Catherine Evans	Arolygydd Cofnodol
Iolo Dafydd	Arolygydd Tîm
Alun Morgan	Arolygydd Tîm
Kevin Adams	Arolygydd Ychwanegol
Gareth Wyn Jones	Arolygydd Ychwanegol
Gwynoro Jones	Arolygydd Lleyg
Graham Daniels	Arolygydd Cymheiriaid
Gareth Williams	Enwebai'r Ysgol

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

## Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11